

# *Shimmer / Symudliw*

physical dialogues between form and movement /

deialogau corfforol rhwng ffurf a symudiad

by/gan Eeva-Maria Mutka

## Y prosiect hwn

Mae'r prosiect hwn yn cynnwys 3 elfen, sy'n cyflwyno cyfeiriad newydd i ganfyddiad Ffurf: cydblethu

- 1) gwneud marciau, gwrthrychau ffisegol newydd (cerfluniau) ac amgylcheddau,
- 2) llenwi'r rhain gydag ymateb perfformiadol, a
- 3) recordio'r deialogau corfforol hyn ar ffilm a ffotograffiaeth.

## Athroniaeth

Ar y foment hon mewn amser mae angen i ni gwestiynu pa mor sefydlog yw ein canfyddiadau o'r byd. Trwy waith celf sy'n datgelu cyflwr o ansicrwydd o fewn ein hunain ac yn y byd rydyn ni'n ei gyffwrdd, efallai y dechreuwn ddeall mewn ffordd wahanol sut mae popeth yn perthyn (yn gydgysylltiedig) a'r dewisiadau sydd gennym ni, am y cydbwysedd rhwng gweithredu a chynnyrch.

Mae gen i ddiddordeb yn arwyddocâd sut rydyn ni'n mynd ati i wneud delwedd (y weithred o wneud y ddelwedd), sut rydyn ni'n trefnu'r ffurf yn y gofod, a beth mae hyn yn ei gyfleu. Yn yr amser hynod gythryblus hwn o ffiniau cyfnewidiol, a all delweddau atgofus rydym yn eu creu helpu i ddod o hyd i allu newydd i ymdopi ac addasu?

## Enw'r prosiect

Rwyf wedi galw'r prosiect yn Shimmer/Symudliw gan ei fod yn cyfleu fy niddordeb dwys yn y broses o Ganfod. Mae fy null mewn perthynas â deunyddiau a gwrthrychau yn ymwneud â gwrando am ymateb a chwestiynu amlinellau, lle rydw i'n gorffen ac mae'r llall yn dechrau.

Mae gen i ddiddordeb hefyd yn y ffordd y mae aelod o'r gynulleidfa yn cwrdd â'r gwaith, trwy wahanol agweddau arteffact, digwyddiad byw a delwedd weledol, a sut, fel mewn diagram Venn, y gall llawer o ganfyddiadau gwahanol gwrdd mewn croestoriad symudliw. Rwy'n hoffi'r ffaith bod y gair yn Gymraeg yn cynnwys 'symud' a 'lliw', ac mae'r gair Ffinneg am symudliw, 'pailyva', yn awgrymu goleuni'n chwarae sydd hefyd yn elfen bwysig yn fy ngwaith.

### Fideo 1

Isod mae fideo 6 munud o fy mhrosiect, a gafodd ei gynnwys yng ngŵyl Ar-lein Tokyo Space Dance Medi 2020. Dangosodd yr ŵyl hon waith Tetsuro Fukuhara ac 11 o artistiaid o bob cwr o'r byd - clipiau byr ar gyfer 'penodau' o'i ddysgeidiaeth 'Space Dance / New Butoh: Nodwedd, Dawns Cerdded, Paradwys a Blodyn. (Gallwch ddarllen mwy am y Space Dance os cliciwch ar y botwm gwybodaeth 'i' ar gornel dde uchaf y fideo wrth chwarae.)

Efallai bod y golygfeydd hyn yn datgelu gwahanol donau o lais menyw, mewn deialog gyda'i hamgylchedd, yn fewnol ac yn allanol.

*"And I? I drink, I burn, I gather dreams.*

*And sometimes, I tell a story."*

(Terry Tempest-Williams yn *When Women Were Birds*)

Bydd mwy o ddeunydd i ddod yma ac fel perfformiad byw / gosodwaith cyn gynted ag y bydd y pandemig yn lleddfu a'r cyfle yn codi.